

Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012/2013

Enw'r Awdurdod Dinas a Sir Abertawe
Lleol:

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r meysydd allweddol o gynnydd ar gyfer y flwyddyn 2012/13 yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe a meysydd i'w gwella yn y dyfodol

Crynodeb

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe wedi gwneud cynnydd da o ran moderneiddio eu hymagwedd tuag at wasanaethau i oedolion a chryfhau'r ddarpariaeth yn y gwasanaethau i blant. Yn gyffredinol, gan gofio natur amrywiol a lefel y galw y mae'r cyngor yn ei wynebu mae'n darparu lefelau da o wasanaeth. Mae datblygiad y gweithlu wedi bod, ac yn parhau, yn allweddol i'w lwyddiant.

Newidiwyd y cyfarwyddwr a'r strwythur corfforaethol o fewn y cyngor yn ddiweddar. Mae prif swyddog y gwasanaethau cymdeithasol wedi'i benodi sy'n cymryd cyfrifoldebau'r cyfarwyddwr statudol. Mae'r swyddogaeth yn rhan o'r bwrdd gweithredol corfforaethol, ac er mai'r cyfarwyddwr corfforaethol pobl a lleoliadau fydd rheolwr llinell y prif swyddog gwasanaethau cymdeithasol pan gaiff ei benodi, bydd yn adrodd yn uniongyrchol i'r prif weithredwr ar bob mater gweithredol. Yr her fydd sicrhau y darperir y gefnogaeth gorfforaethol angenrheidiol a bod cynllunio busnes ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn parhau'n rhywbeth y bydd y cyngor yn canolbwyntio arno o fewn y strwythur newydd.

Gwasanaethau i oedolion

Mae gwasanaethau i oedolion wedi gwella a cheir cynnydd parhaus. Mae tystiolaeth glir drwy arloesedd prosiect i gefnogi moderneiddio gwasanaethau oedolion. Ceir cydnabyddiaeth y bydd angen cryn dipyn o aillfodelu ar wasanaethau er mwyn darparu darpariaeth gynaliadwy yn y dyfodol. Mae'r cyngor yn parhau i ymgysylltu'n dda gyda darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau.

Gwasanaethau i blant

Mae'r gwasanaethau i blant a theuluoedd yn gwneud cynnydd cyson yn wyneb galw cynyddol. Ystyrir bod pennaeth y gwasanaeth yn darparu arweinyddiaeth gref. Mae'r gweithlu'n parhau'n sefydlog gan fod cadw staff wedi bod yn flaenoriaeth i'r cyngor. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ac mae hyn yn parhau'n uchel o'i gymharu â chynghorau tebyg. Roedd nifer y plant mewn angen wedi lleihau eleni. Roedd adolygiad AGGCC o ganlyniadau ar gyfer plant mewn angen a phlant yn derbyn gofal yn yr awdurdod yn gadarnhaol iawn, yn enwedig yn ymwneud â'r gwaith ataliol y mae'r awdurdod yn ei wneud gyda theuluoedd. Er gwaethaf ymrwymiad corfforaethol a buddsoddiad yn y gwasanaethau i blant a theuluoedd, mae'r awdurdod wedi parhau i ddioddef oherwydd pwysau sylweddol ar y gyllideb, mae hyn yng nghyd-destun galw cynyddol yn her y mae'r awdurdod yn ei chydabod. Bydd yr heriau a achosir gan y nifer uchel a'r galw yn parhau'n sylweddol.

Mae adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr yn integreiddio gweithgaredd perfformiad, yn nodi cynnydd yn erbyn targedau allweddol ac yn amlinellu blaenoriaethau. Mae hyn yn darparu gwybodaeth glir am atebolrwydd cyhoeddus ac yn galluogi dinasyddion Abertawe i benderfynu ar ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau lleol.

Mae AGGCC wedi nodi'r risgiau posibl canlynol:

- Parhad y gefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol ar gyfer cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o fewn y strwythur newydd a'r trefniadau craffu cysylltiedig.
- Nid yw'r strwythur newydd yn cyd-fynd â fframwaith arfaethedig y canllawiau statudol ar swyddogaeth cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol ac mae angen iddo ddangos ei fod yn cydymffurfio ag ef.
- Diffyg mecanwaith pwyllgor amddiffyn oedolion lleol tra bod newid yn digwydd i sefydlu trefniadau'r Bae Gorllewinol.
- Lefel y galw ar adnoddau a chymhlethdod yn y gwasanaethau i blant.

Ymateb i feysydd datblygu'r llynedd

Mae'r cyngor yn parhau i wneud cynnydd yn y meysydd y nodwyd bod angen eu gwella yn y gwasanaethau i oedolion. Mae wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid i adolygu cynlluniau comisiynu ac mae'n disgwyl darparu fframwaith strategol a datganiad sefyllfa yn y farchnad eleni o ganlyniad i'r gwaith hwn. Mae prosiect trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn ailfodelu gwasanaethau er mwyn cynnal y ddarpariaeth a sbarduno gwelliant mewn ymarfer. Ochr yn ochr â hyn, mae'r tîm ansawdd cartrefi gofal yn cefnogi sicrwydd ansawdd gan ganolbwyntio ar wella canlyniadau. Mae gwaith ar y gweill gyda phartneriaid i weithredu cynllun gweithredu'n llawn a datblygu cynlluniau comisiynu i wella cefnogaeth i ofalwyr er mwyn rhoi sylw i ofynion y strategaeth gofalwyr.

Gwnaed cynnydd yn y rhan fwyaf o feysydd i'w gwella a nodwyd ar gyfer y gwasanaethau i blant. Mae'r cyngor yn adrodd ei fod bellach wedi sefydlu panel parhad amlasiantaethol yn rhan o'i strategaeth ataliol ar gyfer plant sydd ar fin cael eu derbyn i ofal. Fel rhan o adolygiad cenedlaethol AGGCC o ganlyniadau ar gyfer plant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal, cymeradwywyd y cyngor am ei waith gyda phlant, teuluoedd a phartneriaid. Mae'n bwriadu parhau â'r gwaith hwn drwy ddefnyddio modelau sgiliau, megis arwyddion o ddiogelwch; gwaith cynllunio'n canolbwyntio ar atebion ac arferion adferol.

Arfer da a nodwyd

Mae AGGCC wedi nodi'r meysydd canlynol o arfer da:

- Y gwasanaeth ail-alluogi yn Bonymaen House.
- Ymgysylltiad y cyngor â lleiafrifoedd ethnig a'u cefnogaeth iddynt.
- Arwyddion o waith diogelwch gyda theuluoedd.

Ymweliadau ac arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn

Mae AGGCC wedi cynnal ymweliad safle yn y gwasanaethau i oedolion eleni. Diben yr ymweliad oedd gwneud gwaith dilynol ar gynnydd prosiect trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a hefyd i ystyried gweithredu'r Mesur Iechyd Meddwl, ac integreiddio gwasanaethau pobl hŷn gydag iechyd. Cyfarfuom ag uwch reolwyr y cyngor hefyd i fynd ar drywydd canlyniadau.

Cymerodd yr awdurdod ran yn adolygiad cenedlaethol AGGCC o ganlyniadau ar gyfer plant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal yn 2012. Nodwyd canlyniadau cadarnhaol ynglŷn â nifer o feysydd. O fewn y gwasanaethau i blant, nid oedd AGGCC yn gallu cyflawni nifer o ymweliadau safle eleni; fodd bynnag, mae cyfarfodydd gyda phennaeth y gwasanaeth wedi galluogi rhywfaint o drafodaeth a monitro'r cynnydd sydd i'w wneud.

Mae'r ymweliadau hyn yn ychwanegol i'r rhaglen flynyddol o arolygiadau a gynhelir yn lleoliadau a gwasanaethau'r cyngor a reoleiddir ar gyfer oedolion a phlant. Cynhaliodd AGGCC gyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd gydag uwch swyddogion y cyngor.

Meysydd i AGGCC wneud gwaith dilynol ynddynt y flwyddyn nesaf

Nodir nifer o feysydd i'w gwella yng nghorff yr adroddiad hwn. Caiff cynnydd o ran y rhain ei drafod gyda'r cyngor yn ystod y cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn y flwyddyn i ddod.

- Cydymffurfio â chanllawiau statudol o ran swyddogaeth cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol.

- Sicrhau bod cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol gref yn parhau ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol a bod trefniadau craffu ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yn parhau'n gadarn ac yn effeithiol.
- Cefnogaeth i ofalwyr a'r ymateb i'r Mesur Gofalwyr.
- Y gwasanaethau anabledd dysgu yn cynnwys trosglwyddo o wasanaethau i blant i wasanaethau i oedolion.
- Trefniadau comisiynu a chynnydd gyda chonsortium y Bae Gorllewinol.
- Diogelu oedolion – ymarfer, ansawdd, archwilio a llywodraethu.
- Cynllunio parhad.

Hefyd, bydd AGGCC yn cynnal arolygiad thematig cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal ac adolygiad cenedlaethol o gomisiynu gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn.

PERFFORMIAD

Llunio gwasanaethau:

Oedolion

Mae'r cyngor yn parhau i wneud cynnydd o ran trawsnewid ei wasanaethau cymdeithasol i oedolion. Mae'r rhaglen newid yn cael ei rheoli a'i chydlynu'n dda. Mae'r ymrwymiad i'w gweithredu yn parhau ar gyfer ail-gyflunio ei wasanaethau iechyd ei hun a gwasanaethau cysylltiedig. Yn ystod ein hymweliadau safle, darganfu AGGCC fod strwythurau a systemau wedi'u sefydlu i gefnogi penderfyniadau cynllunio a chomisiynu da gyda grŵp staff medrus a brwdfrydig. Roedd ganddynt y gallu i weld cysylltiadau ar draws gofal cymdeithasol a gwelwyd bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r angen i ymgysylltu'n weithgar gyda defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr a staff asesu a rheoli gofal.

Mae cynllunio a chomisiynu ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn faes i'w ddatblygu'n barhaus er y bu mentrau sy'n canolbwyntio ar gymunedau penodol a meddygfeydd teulu. Mae'r rhain wedi'u targedu ar wella gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol. Mae'r cyngor yn cydnabod bod rhaid iddynt reoli galw'n fwy effeithiol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy drwy arallgyfeirio pobl i wasanaethau ataliol a chymryd ymagwedd ragweithiol tuag at reoli risg.

Ceir hefyd ymagwedd ragweithiol tuag at ddatblygu gwasanaethau. Nododd y cyngor, er bod 5% o'r boblogaeth leol yn dod o grwpiau ethnig lleiafrifol, bod y defnydd o wasanaethau gan y cymunedau hyn yn isel. Canolbwyntiwyd ar grwpiau sy'n dod i'r amlwg sydd â'r mwyaf o angen nad yw'n cael ei ddiwallu, fel y boblogaeth Bangladeshaidd neu'r boblogaeth gynyddol o ffoaduriaid o Affrica. Mae hyn wedi arwain at nifer o fentrau sy'n cynnwys creu swydd gweithiwr cefnogi gofalwyr Bangladeshaidd a gwaith gyda Phrifysgol Abertawe i gynnal ymchwil i anghenion y grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig lleol. Y nod yw cefnogi'r cymunedau

hyn i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain yn ogystal â chefnogi mynediad at wasanaethau cyfredol. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn eistedd ar y grŵp gofal cwsmeriaid corfforaethol ac yn hyrwyddo gwerthoedd cynwysoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol. Mae aelodau'r grŵp yn cydnabod yr her o ymgysylltu â'r gymuned Tsieineaidd sydd wedi bod yn rhan o etifeddiaeth Abertawe yn hirach na'r rhan fwyaf o grwpiau ethnig eraill.

Datblygwyd prosiect trawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion er mwyn mynd i'r afael â galwadau cynyddol o fewn cyd-destun o adnoddau sy'n lleihau ac agenda gwella heriol. Er mwyn cefnogi hyn, mae'r cyngor yn gweld taliadau uniongyrchol cynyddol, hyfforddi cynorthwyr personol o fewn diwylliannau priodol a chynyddu ymwybyddiaeth o amrywiaeth yng ngrŵp gweithredu gofawyr fel un ffordd o gyrraedd grwpiau y mae'n anodd eu cyrraedd. Er mwyn sicrhau bod pobl sy'n byw y tu allan i ganol y ddinas yn derbyn gofal a chefnogaeth, mae'r cyngor wedi hyrwyddo taliadau uniongyrchol a bydd yn ystyried teilwra ei wasanaeth cefnogi mewnol er mwyn cefnogi'r bobl hynny'n fwy effeithiol.

Ceir tîm comisiynu penodol o fewn y gwasanaethau cymdeithasol, sy'n cwmpasu cynllunio a datblygu gwasanaeth strategol yn ogystal â chaffael a chontractio. Mae'r tîm yn gysylltiedig â chomisiynu corfforaethol, ac yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr mewn cynllunio a pholisi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg pan fo hynny'n ychwanegu gwerth. Mae aelodau'r tîm yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, aelodau o'r timoedd asesu a rheoli gofal, darparwyr gwasanaeth (gan gynnwys rhai mewnol a thrydydd sector) i gefnogi ac ysgogi datblygu'r gwasanaeth. Mae'r cyngor yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn hyrwyddo lleoliadau wedi'u cynllunio yn hytrach na rhai argyfwng. Mae arolygwyr yn adrodd bod y comisiynwyr yn parhau i fod yn effeithiol iawn o ran achosi gwelliannau yn y sector gofal preswyl a gofal cartref.

Plant

Mae'r cyngor yn datblygu ystod o wasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol er mwyn hyrwyddo lles a lleihau angen cynyddol ac, o ganlyniad, yn lleihau'r galw ar wasanaethau cymdeithasol ffurfiol. Mae fframwaith strategol ar gyfer gweithio integredig wedi peri datblygiad pellach yn y gwasanaeth "tîm o gwmpas y teulu" a'r panel parhad. Mae prosiect arbrofol ar hyrwyddo cynhwysiad wedi cychwyn, gan gynnwys dwy ysgol gyfun a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo i ddechrau. Mae'n glir bod y cyngor yn datblygu gwasanaethau yn unol â rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru. Ceir strategaeth glir, y mae ei phwyslais ar atal ac ymyrryd yn gynnar ar gyfer teuluoedd, gan dargedu grwpiau agored i niwed a rhoi sylw i dlodi plant yn yr ardaloedd lle y ceir yr amddifadedd mwyaf.

Mae'r cyngor wedi dechrau ystyried y dull gorau o ddarparu gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd, yn arbennig ynghylch trosglwyddo i ofal oedolion. Mae'r cyngor wedi ymgysylltu â theuluoedd, ac mae'r grwpiau strategaeth plant ag

anableddau'n datblygu un polisi trosglwyddo amlasiantaethol. Y flaenoriaeth fydd sicrhau bod nifer y plant ag anghenion cymhleth sy'n gorfod byw y tu allan i'r sir yn lleihau.

Lansiwyd gwasanaeth dwys i gefnogi teuluoedd rhanbarthol ym mis Hydref 2012 a dechreuodd weithredu ym mis Chwefror 2013 ac, er ei fod yn rhy gynnar i'w werthuso, mae tystiolaeth o ardaloedd eraill yng Nghymru'n awgrymu bod y model hwn o ymyrraeth ddwys yn effeithiol.

Mae Maethu Abertawe wedi cael 31 gofalwr ychwanegol eleni ac wedi cyflawni 73 mwy o leoliadau, sy'n sylweddol, o ganlyniad uniongyrchol i'r gwaith a wnaed gan yr asiantaeth. Enwebwyd y gwasanaeth maethu ar gyfer gwobr gofal cymdeithasol eleni o ganlyniad i arfer da yn y tîm.

Mae'r cyngor wedi ail-gyflunio ei ddarpariaeth breswyl a seibiant ac wedi ymgysylltu â darparwyr annibynnol lleol er mwyn hwyluso dychwelyd plant Abertawe i'r ardal pan fo'n ddiogel ac yn briodol i wneud hynny. Y gobaith yw y bydd yr ymgysylltiad hwn yn golygu hefyd na fydd yn rhaid i blant adael yr ardal er mwyn derbyn gofal. Mae hyn eisoes wedi bod o fudd sylweddol wrth i nifer y plant sy'n derbyn gofal y tu allan i ranbarth De Cymru leihau i 3%. Mae gan hyn fuddion arbedion cost sylweddol yn ogystal â'i fod yn hyrwyddo canlyniadau gwell ar gyfer plant.

Bu cynnydd sylweddol eleni yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a gododd o 554 i 588 ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf. Cododd nifer y plant y mae eu henwau ar y gofrestr amddiffyn plant hefyd o 223 i 236 yn ystod yr un cyfnod. Bydd y cyngor am ystyried effaith hyn gan ei fod yn gosod llwyth gwaith sylweddol ar dimoedd.

Meysydd o gynnydd

- Datblygiad parhaus y rhaglen trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol i oedolion.
- Gweithredu gwasanaeth dwys i gefnogi teuluoedd.
- Lleihad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a leolir y tu allan i Dde Cymru.

Meysydd i'w gwella

- Parhau i fonitro'r cydbwysedd rhwng cefnogi pobl hŷn yn eu cartrefi eu hunain a'u derbyn i welyau gofal preswyl.
- Lleihau nifer y plant sy'n dod yn blant sy'n derbyn gofal drwy strategaethau ataliol a chefnogol.

Cael gafael ar gymorth:

Oedolion

Mae pobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau a cheisio cymorth mewn dull prydlon ac effeithiol. Mae'r broses dderbyn yn gadarn ac mae pobl yn cael eu cyfeirio'n briodol. Mae gwefan y gwasanaethau i oedolion wedi ei gwella. Mae hyn yn galluogi pobl i ddod o hyd i'r wybodaeth iawn ar yr amser iawn ac yn cefnogi hunanatgyfeirio. Mae llwybrau mwy eglur wedi eu datblygu er mwyn sicrhau bod pobl yn cael ymateb cyflym pan fo'i angen arnynt.

Mae'r cyngor yn adrodd eu bod wedi rhoi model gweithredu targed newydd ar waith. Mae'r model yn nodi disgwyliadau clir ar gyfer timoedd a staff rheng flaen gan roi mwy o amser iddynt i'w dreulio gyda phobl yn hytrach na dilyn prosesau. Mae'r broses asesu unedig wedi'i diwygio ac mae pobl yn gweld ei bod yn haws gweithio gyda hi. Mae adolygiadau'n digwydd yn fwy rheolaidd gyda pherfformiad gwell ar 83% o'i gymharu â 76% y llynedd.

Adroddir bod datblygu'r gwasanaeth yn Bonymaen yn effeithiol iawn o ran atal derbyn a hwyluso rhyddhau pobl yn gynharach o'r ysbyty. O ganlyniad, mae'r cyngor wedi lleihau'r gyfradd o Ryddhau Gohiriedig o'r ysbyty oherwydd rhesymau gofal cymdeithasol o 7.18% y llynedd i 2.2 % eleni, mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chynghorau tebyg.

Mae'r diwygiad parhaus o reoli ac asesu gofal wedi bod yn brosiect strategol o fewn rhaglen gyffredinol trawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion. Mae'r cyngor wedi adolygu sut y gall wella canlyniadau ar gyfer pobl hŷn ac mae wedi gwneud newidiadau, yn enwedig i'w wasanaethau mewnol mewn gofal preswyl, gofal cartref a thechnoleg gynorthwyol, yn fwyaf nodedig drwy drosglwyddo adnoddau o wasanaethau traddodiadol i wasanaethau sy'n canolbwyntio ar ail-alluogi.

Mae gwasanaethau iechyd meddwl yn darparu ymagwedd amlasiantaethol integredig, mae staff yn cael eu cefnogi'n dda ac yn derbyn hyfforddiant priodol. Mae'r cyngor yn gweithio'n dda ar weithredu Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 gyda'r newid i fodel cynllunio gofal a thriniaeth yn mynd rhagddo'n dda.

Plant

Mae'r cyngor wedi sefydlu trefniadau newydd eleni fel y bydd pobl yn gallu cael gafael ar staff mewn ymateb i bryderon am ddiogelwch ac amddiffyn plant a godir gan weithwyr proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd.

Mae datblygu strategaeth gyffredinol dros bum mlynedd ar gyfer lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn amcanu at barhau â'r gwelliant mewn cynllunio parhad ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, a lleihau'r deunydd o wasanaethau

plant sy'n derbyn gofal mewn modd diogel. Mae'r gwaith hwn hefyd â'r nod o wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gwasanaethau derbyn gofal. Mae'r staff cyfan yn glir ynglŷn â phwysigrwydd cynllunio parhad o ran cyflawni'r canlyniadau gorau i blant. Mae'n bosibl mai un dangosydd o arwyddion cynnar llwyddiant y gwaith ataliol sy'n digwydd gyda theuluoedd yw'r ffaith bod atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol wedi lleihau o'r flwyddyn flaenorol o 3,538 i 2,634 sy'n ostyngiad o 25%. Nodir gostyngiad tebyg mewn ailatgyfeiriadau. Serch hynny, bu cynnydd net o 34 yn nifer y plant sy'n derbyn gofal eleni.

Mae'r cyngor yn adrodd am gynnydd bychan mewn perfformiad o ran cwblhau asesiadau cychwynnol a chraidd o fewn yr amserlenni. Adroddir bod perfformiad yn ymwneud ag ymweliadau statudol i blant sy'n derbyn gofal, plant mewn angen a'r rhai y mae eu henwau ar y gofrestr amddiffyn plant o fewn yr amser gofynnol, yn 74%, sy'n berfformiad isel o'i gymharu ag awdurdodau tebyg.

Meysydd o gynnydd

- Gostyngiad yn nifer y trosglwyddiadau gofal a ohiriwyd am resymau gofal cymdeithasol.
- Gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau plant a theuluoedd.

Meysydd i'w gwella

- Perfformiad gwell mewn ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal, y rhai sydd ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant mewn angen.

Y gwasanaethau a ddarparwyd:

Oedolion

Mae pobl yn parhau i fod â mynediad at lefel gynyddol o gefnogaeth yn eu cymunedau. Yn dilyn cynllun arbrol y llynedd o glybiau cyfle cymdeithasol mewn cymunedau lleol, mae'r cyngor bellach yn hwyluso mwy na deuddeg o grwpiau cymdeithasol wythnosol i bobl hŷn. Mae'r rhain yn eu cysylltu â phobl a gweithgareddau yn eu cymuned leol gan alluogi cyfeirio at wasanaethau a helpu yn y gwaith ataliol ym maes cefnogi gofalwyr. Erbyn hyn ceir pum rhwydwaith iechyd cymunedol ac mae gwaith ar y cyd pellach yn digwydd ar draws y gwasanaethau cymdeithasol a'i bartneriaid mewn iechyd a'r trydydd sector, ynghyd ag adfer hamdden ac adloniant cymunedol i ddatblygu'r gwasanaeth hwn ymhellach ar draws y ddinas.

Adolygodd y cyngor y gwasanaeth a ddarperir yn Bonymaen House eleni, un o'i gartrefi preswyl i bobl hŷn. Mae gwasanaeth ail-alluogi integredig wedi'i sefydlu i ddarparu gofal preswyl tymor byr i bobl hŷn sydd naill ai'n iach yn feddygol ar gyfer cael eu rhyddhau o'r ysbyty neu'r rhai sy'n byw gartref sydd angen cyfnod o gefnogaeth ddwys tymor byr. Roedd canlyniadau'r cynllun arbrol yn galonogol a

chafodd 50% o bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth eu cefnogi i ddychwelyd adref gan eu galluogi i gael dewisiadau gwirioneddol ynglŷn â sut y maent yn byw eu bywyd. Mae gwaith y timoedd adnoddau cymunedol ac ymrwymiad y staff wedi bod yn anhepgor i'w lwyddiant.

Mae integreiddio gydag iechyd wedi parhau i wneud cynnydd gyda datblygiad y storfa offer cymunedol integredig, sy'n caniatáu mynediad haws at offer ac addasiadau ar gyfer pobl sy'n derbyn cymorth gartref. Adroddir bod y timoedd sydd wedi'u cydleoli, therapi galwedigaethol a gwasanaeth ymateb yn gyflym, a phob gwasanaeth integredig, yn darparu canlyniadau da i bobl.

Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn Nhŷ Waunarlwydd yn parhau i ddarparu canlyniadau cadarnhaol i bobl sydd â dementia, ac mae gwasanaethau iechyd meddwl yn dod yn fwy hyblyg ac yn canolbwyntio ar adfer. Mae'r cyngor yn adrodd bod llawer o'i weithgareddau bellach yn cael eu rhedeg gan grwpiau defnyddwyr gwasanaeth. Mae prosiectau llety'n cael eu cefnogi gan y cyngor, yn fwyaf nodedig Robense House, a enillodd un o wobrau Llywodraeth Cymru am ragoriaeth, a hefyd Llanfair House, sy'n cefnogi defnyddwyr gwasanaeth sydd ag anghenion cymorth sy'n gymhleth iawn ac sydd weithiau'n heriol.

Mae rhaglen drawsnewid y cyngor yn dangos yr angen am ddatblygiad pellach yn y gwasanaeth i wella mynediad at wasanaethau dydd arbenigol a gweithgareddau cymunedol er mwyn lleihau ynysu cymdeithasol, a darparu cyngor a chyfeirio cynnar. Mae'r cyngor wedi cydnabod yr angen i gryfhau ei raglen taliadau uniongyrchol. Mae'r strategaeth gofalwyr wedi'i sefydlu'n dda. Mae nifer o wasanaethau arloesol trydydd sector yn cefnogi'r gwaith hwn.

Plant

Mae'r dystiolaeth a welwyd fel rhan o'r arolygiad o blant mewn angen yn awgrymu bod y canlyniadau da a gyflawnwyd ar gyfer teuluoedd yn gynaliadwy yn y tymor hir. Mae hyn, yn rhannol, oherwydd sgiliau gweithwyr cymdeithasol ar gyfer adeiladu perthynas â theuluoedd er mwyn sicrhau newid parhaol. Teimlwyd bod gan hyn y potensial i sicrhau bod llai o blant yn dod yn blant sy'n derbyn gofal ac mae hyn yn rhywbeth sydd nid yn unig yn ganlyniad cadarnhaol i'r plant a'r bobl ifanc, ond a allai helpu hefyd i leihau'r baich ariannol sylweddol a osodir ar yr awdurdod.

Mae Maethu Abertawe wedi derbyn adroddiad cadarnhaol mewn arolygiad diweddar. Mae recriwtio ac ymgysylltu wedi bod yn gryf ac, o ganlyniad, cafwyd cynnydd o 31 gofalwr eleni. Mae'r cyngor wedi datblygu gwasanaeth therapi teuluol mewnol ymhellach ac mae'n cynnal cysylltiadau â'r gwasanaeth iechyd meddwl plant a glasoed er mwyn cefnogi plant sydd ag anghenion cymhleth. Mae'r cyngor yn bwriadu datblygu darpariaeth arbenigol bellach ar gyfer plant â'r anghenion mwyaf cymhleth trwy raglen ranbarthol y Bae Gorllewinol.

Mae'r cyngor yn adrodd ei fod wedi gwella canran y bobl ifanc a oedd yn arfer derbyn gofal y mae mewn cysylltiad â nhw o 89% i 94%, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, a'i fod hefyd wedi cynyddu rhywfaint o ran y ganran o bobl ifanc sydd mewn llety addas i 93%. Mae hyn hefyd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae adolygiad annibynnol allanol gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus wedi cymeradwyo'r awdurdod am y gwaith y mae'n ei wneud sy'n galluogi pobl ifanc i aros yn blant sy'n derbyn gofal, gan gydnabod y dystiolaeth bod cysylltiad cryf rhwng gadael gofal yn ddiweddarach a chanlyniadau gwell i bobl ifanc.

Roedd uned gofal plant preswyl y cyngor wedi newid i fod yn ddarpariaeth gwely mewn argyfwng gyda chyfleuster asesu ar gyfer lleoliadau yn para hyd at 12 wythnos. Yn ei arolygiad diweddar, nodwyd bod yr uned yn darparu gofal o safon dda.

Meysydd o gynnydd

- Y gwasanaeth ail-alluogi yn Bonymaen House.
- Cynnydd yn nifer y gofalwyr maeth.

Meysydd i'w gwella

- Parhau i wella cynllunio gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniad/adfer yn y gwasanaethau ieched meddwl.

Yr effaith ar fywydau pobl:

Oedolion

Mae oedolion agored i niwed wedi elwa erioed ar broses ddiogelu sefydledig a chadarn yn y cyngor. Eleni mae'r cyngor wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o ddiogelu sy'n cynnwys y prosesau a'r strwythurau. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, mae'r cyngor yn diddymu ei dîm diogelu penodedig er mwyn gwneud diogelu yn "fusnes pawb" ac felly mae'r swyddogaethau wedi cael eu dirprwyo i bob tîm. Bydd y cyngor eisiau ei sicrhau ei hun bod ganddo drefniadau effeithiol i wneud yn siŵr bod ei arfer diogelu'n parhau i fod yn gadarn. Bydd eisiau sicrhau bod y swyddogaethau'n cael eu rheoli a'u harchwilio'n dda er mwyn parhau i ddarparu ymateb effeithiol a phrydlon i rybuddion diogelu ar gyfer pobl sy'n agored i niwed.

Mae arolygwyr yn adrodd bod timoedd monitro contractau'n ymateb yn gadarnhaol ac yn effeithiol yn dilyn unrhyw bryderon ynglŷn â diogelu. Mae'r cyngor yn effeithiol yn ei waith cynyddu pryderon ac yn gweithio'n dda gydag asiantaethau partner. Sefydlwyd bwrdd diogelu rhanbarthol eleni drwy waith cydweithredu'r Bae Gorllewinol ac mae'r cyngor yn gweithio gyda'i awdurdodau partner i sefydlu'n llawn beth yw swyddogaethau hwn.

Mae canllawiau bellach yn nodi bod yn rhaid cynnig taliadau uniongyrchol fel dewis cyntaf i bobl sydd angen cefnogaeth. Mae'r cyngor yn cydnabod pwysigrwydd gwneud taliadau uniongyrchol yn hygyrch i bob defnyddiwr gwasanaeth er mwyn adeiladu hyblygrwydd a dewis i unigolion. Gwneir hyn drwy sicrhau bod y staff asesu a rheoli gofal yn deall taliadau uniongyrchol ac yn datblygu gwybodaeth glir. Mae llyfryn gwybodaeth diwygiedig am daliadau uniongyrchol wedi cael ei gyhoeddi a'i roi ar gael i'r cyhoedd.

Mae'r cyngor wedi sefydlu cysylltiadau cryf gyda sefydliadau gofalwyr yn y sector statudol a'r trydydd sector. Fodd bynnag, er ei fod yn well na'r llynedd, mae nifer yr asesiadau o ofalwyr a gynhelir yn parhau i fod yn isel. Dyma faes y mae'n bosibl y byddai'r cyngor am ganolbwyntio arno yn rhan o'i agenda ataliol.

Plant

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cymerodd Abertawe ran yn adolygiad AGGCC o ganlyniadau i blant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal. Cymeradwyodd arolygwyr ansawdd gwaith a medrusrwydd y gweithwyr cymdeithasol, a'r canlyniadau o ansawdd uchel a gyflawnwyd ym mhob un o'r achosion a welwyd.

Nododd yr arolygwyr ymrwymiad corfforaethol a gwleidyddol i sicrhau canlyniadau da i blant a'u theuluoedd gydag ystod dda o wasanaethau ar gael, yn enwedig ar gyfer atal ac ymyrryd yn gynnar. Mae cydweithredu amlasiantaethol wedi hwyluso penderfyniadau cynnar da ac wedi galluogi gwaith o ansawdd uchel gyda theuluoedd. Roedd ansawdd yr asesiadau a welwyd yn dda ac, mewn rhai achosion, yn rhagorol. Roedd hyn, yn rhannol, am fod gweithwyr cymdeithasol yn defnyddio sgwrsio, yn hytrach na holiadur, i gofnodi eu hasesiadau. Mae'r defnydd o fodelau sgiliau, megis arwyddion o ddiogelwch, arferion adferol ac arferion sy'n canolbwyntio ar ddatrysiad, wedi cyfrannu at safon uchel yr asesiadau a gwneud penderfyniadau.

Darganfu arolygwyr fod polisi rhai timoedd o wneud y gwaith asesu ac ymgysylltu manwl gyda theuluoedd ar gam cynnar, wedi arwain at benderfyniadau cynnar o ansawdd da. Roedd arferion hyderus ac effeithiol mewn achosion amddiffyn plant, gan weithwyr cymdeithasol a phartneriaid, yn amlwg. Roedd ansawdd y gwaith cynllunio gofal a welwyd ar gyfer plant mewn gofal ac ar y gofrestr yn dda, ac, mewn rhai achosion, gwelwyd enghreifftiau o arferion arbennig o dda. Roedd yr arolygwyr yn teimlo bod risgiau'n cael eu hasesu a'u rheoli'n dda, oherwydd y defnydd o fodelau sgiliau penodol megis arwyddion o ddiogelwch. Dylid nodi'n arbennig sgiliau gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gyda theuluoedd sy'n gwrthod cydweithredu neu â theuluoedd gwrthwynebol. Soniodd rhieni eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, y gwrandewir arnynt, ac roeddent yn gwerthfawrogi eu perthynas â'r gweithiwr cymdeithasol. Roedd teuluoedd yn dweud eu bod yn teimlo'n rhan o'r broses asesu a bod gweithwyr cymdeithasol yn gweithio gyda nhw yn hytrach nag yn gorfodi eu barn arnynt.

Yn ystod 2012/13, cynhaliwyd bron i 82% o gynadleddau achos amddiffyn plant o fewn 15 diwrnod gwaith i'r drafodaeth am strategaeth. Y canran o gyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol a oedd i'w cynnal yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd o fewn 10 diwrnod gwaith i'r gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol oedd 76%. Er bod hyn yn welliant ar y flwyddyn flaenorol, mae'n parhau i fod yn sylweddol is nag awdurdodau cyffelyb eraill. Yn yr un modd, canran yr adolygiadau o blant yn derbyn gofal a gynhaliwyd o fewn yr amserlenni statudol yn ystod y flwyddyn oedd 83%, sy'n sylweddol is nag awdurdodau cyffelyb.

Meysydd o gynnydd

- Cynnydd cadarnhaol gan dимоedd gwaith cymdeithasol o ran plant mewn angen a sefydlu arferion da wrth weithio gyda theuluoedd.

Meysydd i'w gwella

- Dylai'r cyngor ystyried, yn rhan o'r agenda ataliol, sut y gall gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar asesiadau gofalwyr,
- Gwelliant yn y gyfradd o adolygiadau i blant sy'n derbyn gofal.
- Prydlondeb cyfarfodydd grŵp craidd.

GALLU

Darparu Gwasanaethau Cymdeithasol:

Mae'r cyngor wedi dweud mai un elfen allweddol o'r rhaglen drawsnewid yw darparu model cymorth sy'n canolbwyntio'n fwy ar y dinesydd, mae pwysigrwydd grŵp staff profiadol a werthfawrogir ac a gefnogir yn hanfodol i hyn. Eleni mae wedi cyflwyno rhaglen hyfforddi sgiliau er mwyn cefnogi a datblygu staff ar gyfer y newidiadau y mae'r sefydliad yn mynd trwyddynt.

Mae'r gwasanaethau i blant a theuluoedd bellach wedi eu staffio'n llawn er nad yw'r mwyafrif o weithwyr cymdeithasol mor brofiadol ag y byddai'r awdurdod yn ei ddymuno. Yr her yw darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i deuluoedd, a pharhau i gefnogi a datblygu ei weithlu, ar yr un pryd â gwella rhai meysydd o berfformiad. Mae buddsoddiad y llynedd mewn rhaglen o hyfforddiant ychwanegol megis arfer adferol ac arwyddion o ddiogelwch bellach yn dechrau ymsefydlu ac mae'n cael ei ddarparu i bob aelod presennol a newydd o staff. Mae rhaglen blwyddyn gyntaf mewn ymarfer wedi'i sefydlu ac mae'r rhaglen datblygu'r gweithlu'n ymestyn i ddatblygiad proffesiynol parhaus i'r staff i gyd.

Mae'r cyngor yn adrodd bod trosiant cymharol isel o staff eleni, sydd wedi gostwng o 13% yn y flwyddyn flaenorol i ychydig dros 8%. Mae'r cyngor yn cydnabod bod salwch staff yn destun pryder o hyd. Er y bu gostyngiad bychan mewn cyfraddau salwch ar draws yr awdurdod, bu cynnydd yn y cyfraddau salwch yn y gwasanaethau i blant a theuluoedd.

Mae'r cyngor yn parhau i sicrhau a chefnogi gweithwyr cymdeithasol i gynnal eu cofrestriad gyda Chyngor Gofal Cymru ac yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus hefyd.

Mae'r sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn her gyda galw mawr yn y gwasanaethau i oedolion ac i blant. Mae'r gwasanaethau i blant a theuluoedd yn wynebu gorwariant parhaus yn y gyllideb. Mae trefniadau monitro cadarn wedi'u sefydlu gyda'r nod o sicrhau cynaliadwyedd. Fodd bynnag, bydd y cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, a'r galwadau ariannol sy'n dod yn sgil hyn, yn her i'r awdurdod.

Meysydd o gynnydd

- Mwy o sefydlogrwydd yn gyffredinol yn y gweithlu.

Meysydd i'w gwella

- Lleihau cyfraddau salwch ar draws y gwasanaethau i blant.
- Monitro'n barhaus lefelau'r hyfforddiant a gwybodaeth a geir gan staff ar ddiwedd eu cyfnod sefydlu er mwyn nodi a sicrhau y bodlonir anghenion dysgu a datblygiad pellach.

Darparu cyfeiriad

Cafwyd cefnogaeth gorfforaethol dda i'r gwasanaethau cymdeithasol gyda gweledigaeth a chyfeiriad clir, fel y mae'r strategaethau cadarn a chynllun gwella corfforaethol yn ei ddangos. Penodwyd prif swyddog ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yn ddiweddar. Er nad yw'r swydd ar lefel cyfarwyddwr corfforaethol, mae'r cyngor wedi rhoi ymrwymiad na fydd yn newid nac yn lleihau'r lefel o gefnogaeth i'r gwasanaethau cymdeithasol a welwyd o'r blaen. Mae'r prif swyddog gwasanaethau cymdeithasol yn aelod o'r bwrdd gweithredol a bydd yn adrodd yn uniongyrchol i'r prif weithredwr ar bob mater gweithredol, tra bo'r swydd yn rhan, yn rheolaethol, o gyfarwyddiaeth gorfforaethol pobl a lleoliadau. Mae'r swyddi cyfarwyddwyr corfforaethol newydd yn cael eu penodi ar hyn o bryd ac mae pob penodiad a wnaed hyd yma wedi bod yn allanol i'r awdurdod. Bydd unigolion yn dechrau yn eu swyddi yn y dyfodol agos. Yr her fydd i'r cyngor, trwy'r strwythur newydd, barhau ac adeiladu ymhellach ar y gwelliant parhaus yn y gwasanaethau cymdeithasol. Yng nghyd-destun newid trefniadol, bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol i weld pa un a oes cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol gref o hyd ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol ac, o ran swyddogaeth cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol, bod cydymffurfiad â chanllawiau statudol.

Yn y blynyddoedd diweddar, mae Abertawe wedi cael cydnabyddiaeth am ansawdd a chadernid ei drefniadau craffu ac mae wedi diwygio'r trefniadau hynny eleni. Newidiwyd y pwyslais o graffu gwasanaethau iechyd a lles oedolion i bwyllgor rhaglen graffu strategol, sy'n cwmpasu holl waith y cyngor. Ceir is-bwyllgor penodol ar gyfer yr holl wasanaethau cymdeithasol sy'n derbyn

adroddiadau'n gyson oddi wrth y gwasanaethau i blant a theuluoedd ac i oedolion. Nid yw'n glir eto pa effaith y caiff y trefniadau newydd ar y sylw neu'r gefnogaeth a roddir i'r gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, dywedodd swyddogion y siaradwyd â nhw yn ystod yr ymweliad safle â'r gwasanaethau i oedolion fod y cyfarfod cyntaf yn adeiladol, gyda lefel briodol o gwestiynau a chyfeiriad ar gyfer y dyfodol. Bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol i weld a yw'r trefniadau craffu newydd yn parhau i fod yn gadarn ac yn effeithiol, yn enwedig wrth i'r gwasanaethau cymdeithasol gael eu cynnwys mewn cyfarwyddiaeth gorfforaethol ehangach.

Mae'r sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn bwysau sylweddol gyda galwadau cynyddol ar wasanaethau i blant ac i oedolion. Bydd y galwadau cynyddol hyn yn parhau i fod yn her ariannol ac yn her o ran cyflawni gwasanaethau.

Daeth adroddiad gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2012/13 i'r casgliad bod y cyngor yn gwella perfformiad ac yn cymryd camau i wella'r diwylliant o hunanwerthuso ar yr un pryd. Mae'n cydnabod ei fod yn mynd trwy gyfnod o newid o ran yr uwch reolwyr a'r trefniadau craffu. Mae'r cyngor yn gwneud cynnydd cyson o ran cyflenwi gwelliannau mewn llawer o'i feysydd blaenoriaeth ond mae heriau sylweddol o hyd, yn arbennig er mwyn gwella a chynnal ansawdd gofal yn y gwasanaethau i blant ac i oedolion. Mae ymagwedd y cyngor tuag at hunanwerthuso yn cymryd camau cadarnhaol i adrodd darlun cywir o berfformiad i ddinasyddion. Mae trefniadau'r cyngor ar gyfer cynllunio a chefnogi gwelliant yn gyffredinol gadarn ac mae'n rheoli cyfnod o newid yn y trefniadau uwch reoli a chraffu.